# SL(6)663 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 2) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 21A i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

Mae Atodlen 21A yn darparu ar gyfer rhyddhad rhag treth trafodiadau tir ar gyfer trafodiadau cymhwysol o dir mewn safle treth arbennig. O dan baragraff 2 o'r Atodlen honno, mae'r rhyddhad ar hyn o bryd yn gymwys i ardaloedd dynodedig sy'n cynnwys y Porthladd Rhydd Celtaidd[1] a Phorthladd Rhydd Ynys Môn[2].

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y rhyddhad i safleoedd pellach yn Ynys Môn[3], a hynny o 21 Tachwedd 2025 ymlaen.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 1(2) yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym am "hanner nos ar 21 Tachwedd 2025".

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro:

---

[1] Yr ardal a ddynodwyd gan Lywodraeth y DU yn ardal arbennig gan Reoliadau Dynodi Safleoedd Treth Arbennig (Porthladd Rhydd Celtaidd) 2024/1035 a wnaed ar 16 Hydref 2024.
[2] Yr ardal a ddynodwyd gan Lywodraeth y DU yn ardal arbennig gan Reoliadau Dynodi Safleoedd Treth Arbennig (Porthladd Rhydd Ynys Môn) 2024/1286 a wnaed ar 4 Rhagfyr 2024.
[3] Yr ardaloedd a ddynodwyd gan Lywodraeth y DU yn ardaloedd arbennig gan Reoliadau Dynodi Safleoedd Treth Arbennig (Porthladd Rhydd Ynys Môn) 2025/1079 a wnaed ar 14 Hydref 2025.

(1) diben (ac ystyr) "hanner nos" yn y ddarpariaeth hon, o ystyried bod adran 29 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu i is-offeryn Cymreig ddod i rym ar ddechrau diwrnod a bennir yn yr offeryn; a

(2) pam nad yw'r dyddiad dod i rym mewn testun italig o dan enw'r OS ond yn cadarnhau bod y Rheoliadau yn dod i rym ar 21 Tachwedd 2025, yn hytrach nag yn pennu'r pwynt amser cyfatebol a grybwyllir yn rheoliad 1(2).

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn darparu bod rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau, gan gynnwys y dreth trafodiadau tir a gesglir, i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn rhyddhad ar gyfer safleoedd treth arbennig rhag treth trafodiadau tir i'r safleoedd pellach a nodwyd yn Ynys Môn o 21 Tachwedd 2025 tan 30 Medi 2029.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 3.6 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi:

> *"Mae'r rhyddhad yn gymhorthdal ar ffurf rhyddhad wedi ei gyfyngu'n ddaearyddol a ddarperir i'r busnesau hynny sy'n prynu tir ac yn bodloni'r amodau cymhwysol yn y safleoedd treth arbennig dynodedig am gyfnod cyfyngedig o amser. Cyfeiriwyd y Cynllun Rheoli Cymorthdaliadau ar gyfer y Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yn unol ag adran 31 o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, ac fe'i cofrestrwyd ar y gronfa ddata cymorthdaliadau yn unol ag adran 33 o'r Ddeddf honno ar 14 Tachwedd 2024."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Tachwedd 2025**